

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 3ydd o Dachwedd 2022 drwy Zoom yn brydlon am 7.30 o'r gloch.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell gan ddefnyddio technoleg, ac roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc.

Yn bresennol : Y Cynghorwyr Sian Angharad Parry (Cadeirydd), Margaret Griffith, Rhys Tudur, Aled Lloyd Evans, Anwen Jones, , Darren Morley, Delyth Parry, Dylan Thomas, Miriam Williams a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**: Cynghorwyr Angela Williams, Tegid Jones, Aled Davies, Thomas Prys Jones, Gareth O.Davies, a Sion Aled Jones.
2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod** y Cyngor gynhaliwyd ar 6fed o Hydref 2022. Y Cadeirydd yn llofnodi ei bod yn gywir.
3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Hydref 2022 gan y Cadeirydd.
4. **Datgan buddiant personol** - neb.

5. **Materion gan Un Llais Cymru**

Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, - yn son fod angen gwneud Adroddiadau Blynyddol, Cynllun Hyfforddi, Datganiad Llywodraethu Blynyddol, Pwer Cymhwysedd cyffredinol.

Adroddiad Blynyddol am y cyfnod rhwng 01.04.2021 – 31.03.2022 - roedd y Clerc wedi gwneud drafft ohono, a'r Cynghorydd Margaret Griffith wedi ei archwilio, ac fe ddiolchwyd iddynt am ei gwaith. Cytunwyd i'w dderbyn ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd. Bydd yn cael ei roi ar y wefan, ac yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Cynllun Hyfforddi - roedd y cynllun drafft hyfforddiant wedi cael ei baratoi gan y Clerc. Penderfynwyd cymeradwyo a mabwysiadu'r cynllun yma i'w adolygu mewn blwyddyn. Diolchwyd eto i'r Clerc am ei gwaith a'r Cynghorydd Margaret Griffith am ei archwilio, a bydd y Clerc yn ei trefnu i'w gosod ar ein gwefan.

Mae'r Clerc am gylchredeg manylion y cyrsiau Un Llais Cymru - mis Tachwedd a Rhagfyr 2022 er mwyn cyflawni'r cynllun hyfforddiant, sef bod y cynghorwyr newydd yn gwneud y Cyrsiau "Cod Ymddygiad" a Chwrs "Y Cynghorydd", bod yr Is-gadeirydd yn mynychu'r cwrs "Cadeirio", a bod y Clerc yn gwneud y ddau gwrs cyllid. Gofynnwyd i'r cynghorwyr i roi gwybod i'r Clerc pa bryd roeddent am fynychu'r cyrsiau.

Pwer Cymhwysedd cyffredinol - roedd y Clerc wedi holi Un Llais Cymru a derbyniwyd gwybodaeth fod gan gynghorau bwer i wario arian ar gyfer gwahanol eitemau neu brosiect, a daw'r rhan fwyaf o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 e.e. S137, S143.

Mae Pwerau Cymhwysedd yn rhoi'r pŵer i Gyngor wario ar unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn fanteisiol i'r gymuned, er enghraifft, atgyweirio arwyddion ffyrdd neu reoli siop gymunedol. I gynghorau llai fel Cyngor Cymuned Llanystumdwy, nid oes llawer o bwrpas mewn gwirionedd gan fod y pwerau arferol yn cwmpasu ein gwariant. Os nad yw cyngor yn dewis cymeryd y pwerau yma, nid oes rheidrwydd i'r Clerc wneud y cwrs CILCA. **Derbyn.**

6. **Cynllun Peilot ardal Dwyfor** – cais gan Catrin Huws, Uwch Swyddog Galluogi Tai Cymunedol, Grwp Cynefin, mewn partneriaeth hefo Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Hwyluswyr Tai Gwledig a Tai Teg eisiau cychwyn sgwrs ac egluro'r rôl a phwrpas y cynllun. Eisiau adnabod beth yw anghenion tai cymunedau Dwyfor, a chael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa dai yn ein cymuned. **Y Clerc wedi gofyn wrthynt ddod i'n cyfarfod ar 01.12.2022 am 7:00 yr hwyr yn hytrach na mis Tachwedd oherwydd fod nifer yn absennol.**

7. **Ymgynghoriad statudol cynyddu capasiti Ysgol Chwilog**

Yn dilyn penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd ar 19 Gorffennaf 2022 i ymgymryd â phroses statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95 ar 1 Medi 2023, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, byddant yn cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig rhwng **19 Hydref 2022 a 30 Tachwedd 2022**.

Mae'r ddogfen ymgynghori statudol a'r holl ddogfennau perthnasol ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd. **Trafodwyd y mater a cytunwyd mai'r opsiwn o gael dosbarth newydd yn yr ysgol oedd yn cael ei ffafrio yn hytrach na'r ddau opsiwn arall. Y Clerc am anfon llythyr i gadarnhau.**

8. **Hwb Iechyd Eifionydd** - cais gan Cyngor Cymuned Dolbenmaen, i'r cynghorau cyfagos ddod at ei gilydd a chydweithio ar y mater, sef fod "trefniadau cyswllt yr Hwb yn parhau i fod yn sal ac yn anerbyniol a bod pryder mawr parthed diffyg meddygon ar gyfnodau.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu hefo Clerc Dolbenmaen gan gynnig trefnu cyfarfod i drafod y mater, efallai hefo'r Cynghorwyr Sian Parry, Rhys Tudur, Thomas Prys Jones a Mabon ap Gwynfor AS.

9. **Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC)** yn trefnu digwyddiad ar y cyd a gynhelir trwy gyswllt o bell ar 9 Tachwedd 2022. Mae'r digwyddiad yn un pwysig i gynghorau gan ei fod yn edrych ar feysydd allweddol megis newid hinsawdd, diweddarau y cyngor yn ddigidol, bioamrywiaeth a dyletswydd Adran 6, y pecyn cyllid a llywodraethiant newydd, cynlluniau bro a phwysigrwydd hyfforddiant a datblygu. Bydd nifer o siaradwyr o wahanol sectorau yn siarad yno.

Cost y digwyddiad yw £45.00, ac mae'n agored i gynghorwyr yn ogystal â chlercod. **Y Clerc am fynychu.**

10. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

Rhaglen waith trafndiaeth a priffyrdd mis Tachwedd 2022

Lleoliad Gwaith	Disgrifiad o'r Gwaith	Gwasanaeth
Madryn, Chwilog	Gwaith ar y coblau	Priffyrdd

11. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

a) **Rhif cais: C22/0563/41/DT - Bron Haul, 5 - 6 Pen Y Groes, Chwilog, Pwllheli.**
Estyniad deulawr cefn a gosod 2 ffenestr gromen blaen. **Dim gwrthwynebiad.**

b) **Rhif cais: C22/0968/41/DT - Rynys, Llanarmon, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6PT**
Gosod 2 res o baneli solar ffotofoltaidd o fewn cwrtel ar gyfer defnydd domestig. **Cefnogi.**

12. Y Lon Goed -gorchymyn diwygio map swyddogol o dan adran 53, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981- cais wedi cael ei osod ar ddarn o'r Lon Goed, gan y Gymdeithas Ceffylau Prydeinig.

- Maent wedi gofyn am gael cofrestru cilffordd cyfyngedig rhwng pwyntiau C-D ar y Map a Datganiad Swyddogol (MDS), oherwydd nid oes statws cyhoeddus i'r rhan yma ar hyn o bryd, ac
- eisiau uwchraddio'r llwybr troed presennol (rhif 70A) rhwng C ac E i gilffordd gyfyngedig.

Mae pwynt rhwng C - D sef darn o lon breifat (sydd ddim yn lwybr cyhoeddus nac yn ddarn o'r Lon Goed) o'r lon fawr ger Plas Hen hyd at y Lon Goed i gyfeiriad Beudy Newydd, at y darn rhwng C i E, sef sef heibio Gaerwen i gyfeiriad Coed Cae Du.

Byddai hyn yn ei galluogi wedyn i farchogaeth ceffylau ar hyd y darn yma o'r Lon Goed. Gwneir y cais ar y sail fod yr ymgeisydd yn credu fod tystiolaeth ddogfennol yn dangos fod cilffordd gyfyngedig yn bodoli rhwng pwyntiau D-C-E.

Mae cilffordd gyfyngedig yn fath o hawl tramwy sy'n caniatáu mynediad cyhoeddus naill ai ar droed, beicio, marchogaeth neu arwain ceffyl, neu gyda cheffyl a throl.

Fe drafodwyd y mater yma mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar 06.01.2022, ac ar y pryd penderfynwyd gwrthod y cais,

"ar y sail fod nifer o bobl, plant, ysgolion, a chwn yn cerdded ar hyd y Lon yn gyson drwy'r flwyddyn. Byddai cael ceffylau yn mynd ar hyd y Lon felly'n creu perygl i gerddwyr. Mae hefyd ceir y trigolion sydd yn byw ar hyd y rhan yma o'r Lon Goed, yn ogystal a pheirianau a thractorau yn teithio arni'n gyson. Yn ogystal a hyn mae darnau gwlyb ar hyd y darn yma o'r Lon, a byddai ceffylau'n gwneud y sefyllfa'n llawer gwaeth".

Mae Cyngor Gwynedd eisiau ymateb, gyda chymaint o wybodaeth cefndir ag sydd bosib, erbyn 09.12.2022. Maent hefyd wedi anfon llawer o wybodaeth at y Clerc drwy'r post (hen fapiau ac yn y blaen).

Mae'r Clerc a'r Cynghorydd Rhys Tudur am rannu y wybodaeth hefo'r Cynghorwyr Margaret Griffith a Dylan Thomas, ac yna darparu ymateb cyn 09.12.2022. Caiff y mater ei drafod yn ein cyfarfod nesaf.

Materion yn y gymuned.

13. Llanystumdwy

Maen y Wern - y Clerc wedi derbyn 3 pris i dorri'r goeden dderw oedd wedi marw ar dir y Cyngor Cymuned ger y Bedd. Fe wnaeth y Clerc anfon e-bost hefo'r prisiau i gyd at y Cynghorwyr a penderfynwyd gofyn wrth Mr Richard Pearson wneud y gwaith. Fe dorrodd y goeden ar 20.10.2022, gan adael y coed yn y lleoliad, fel bod criw o Lanystumdwy yn ei symud, ond yn anffodus roedd rhywun wedi mynd a nhw erbyn y pawns dilynol. **Derbyn, ond datgan siom fod y darnau coed wedi cael ei symud oddi ar y safle heb ganiatad.**

14. Rhoslan/Ynys

Diffibriliwr yn Rhoslan a Chapel y Beirdd - y trydanwr wedi gosod y ddau gabinet, ac fe wnaeth Mr Tomos Hughes o'r Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ddanfôn y 2 diffibriliwr ac maent rwan wedi cael ei gosod yn manau priodol.

Y Clerc hefyd wedi bod mewn sesiwn hyfforddiant (am ddim) 'CPR' a defnyddio diffibriliwr yn Nghanolfan Hamdden Glaslyn.

- Mae Mr Bryn a Mrs Bethan Jones, Llwyn yr Eryr, Ynys wedi cytuno i fod yn brif warcheidwaid ar gyfer yr un yn Capel y Beirdd, a Mr a Mrs Gareth Richards, 10 Maes Eifion ar gyfer yr un yn Rhoslan.
- Wedyn bydd angen trefnu sesiynau ymwybyddiaeth sgiliau CPR/diffibrilio ar gyfer unigolion sy'n ymwneud â'r sefydliad/grwp. Manylion cyswllt ar <https://llyw.cymru/achub-bywyd-cymru>
- Bydd y Clerc rwan yn cofrestru y ddau ar 'Y Circuit' ar www.thecircuit.uk gan nodi y gwarcheidwad sydd wedi ei enwebu. Bydd yna angen danfon yr ebost sy'n cadarnhau fod hyn wedi ei wneud at achubbywydcymru@wales.nhs.uk

15. Chwilog

Uwchraddio Cae Chwarae Chwilog

Y Cyngorydd Rhys Tudur wedi trefnu cyfarfod hefo criw o rieni'r ysgol i drafod y bwriad o sefydlu pwyllgor yn y pentref i uwchraddio'r cae, ar **nos Iau 10.11.2022 am 7:30 y.h.** **Gobeithio gall nifer o gynghorwyr fod yn bresennol.**

16. Diffibriliwr Chwilog - mae'r Clerc wedi gwneud ymholiadau i gael grant gan 'Save a Life Cymru' i gael diffibriliwr arall yn y pentref oherwydd fod y pentref yn cynyddu. Dywedwyd na fyddai modd cael un arall oes oedd un yno'n barod o fewn 500 medr i un arall, ac mae un o flaen y Neuadd yn barod. **Penderfynwyd trafod y mater yn ein cyfarfod nesaf.**

17. Pencaenewydd/Sardis

18. Llangybi

19. Materion Ariannol

Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd o flaen y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 03.11.2022. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. Gwnaeth y Clerc drefnu i ddangos y biliau i gyd i'r Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi yn dilyn y cyfarfod cyn ei talu. Cytunwyd i dalu'r oriau ychwanegol i'r Clerc am wneud yr adroddiad blynyddol a'r cynllun hyfforddi fis Hydref 2022, sef 12 awr.

20. Cyfarfod Cyllid/Busnes - a gynhaliwyd 06.10.2022. Roedd y cofnodion, y ddogfen 'excel' o'r rhagolwg cyllid/cyllideb am y flwyddyn ariannol 01.04.2023 - 31.04.2024 wedi cael ei anfon at bawb cyn y cyfarfod yma. Cytunwyd i dderbyn y cofnodion, a bydd y praesept newydd o'r 01.04.2023 yn cael ei drafod yng nghyfarfod Rhagfyr 2022.

21. Elusen William Ellis - angen rhoi hysbyseb yn Y Ffynnon ac ar yr hysbysfwrdd yn Llanystumdwy fis Tachwedd, hefo dyddiad cau i dderbyn cais am arian erbyn 28.11.2022. Bydd y ceisiadau yn cael ei trafod yn dilyn y prif gyfarfod nesaf ar 01.12.2022.

22. Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor. Bydd angen ei roi yn rhifyn Tachwedd a Rhagfyr 2022 o'r Ffynnon, ac ar yr hysbysfyrddau gyda dyddiad cau 15.01.2023.

23. Enwau pontydd

Angen penderfyniad i archebu'r 9 enw pont isod gan Llechi'r Ddraig.

- Pont y Felin (sef Pont Melin Plas Du)
- Pont Gaerddu Bach
- Pont Ffridd Lwyd (Pont Afonwen) ar y briffordd

- Pont Llanystumdwy
- Pont Rhydygwystl
- Pont y Felin, Chwilog
- Pont yr Inn, Chwilog-(byddai Garej Pandy ger hon cyn symud i Benygroes, Llanystumdwy)
- Pont Ty'n Gors, ger Ty'n Gors, Llanarmon
- Pont Glandwr (Stesion Llangybi)

Gofynwyd i'r Clerc holi Cyngor Gwynedd i weld oeddent yn fodlon ei gosod nhw i ni eto yn ddi-gost fel y gwnaethpwyd tro blaen, cyn penderfynu ei archebu nhw.

24. **Cof Eifionydd** - Cynghorydd Rhys Tudur am drefnu cyfarfod, fel bod pwyllgor yn cael ei sefydlu, a dewis technegydd i wneud y wefan. Derbyniwyd gwybodaeth mai mewn ffurf PDF y mae'r holl gryno ddisgiau sydd gan Y Ffynnon hyd at 2013, ac felly nid yw'n bosib archwilio am eiriau penodol, oni bai fod rhywun yn rhestru mynegai. Ers 2013, mae'r wybodaeth yn ddigidol wedyn. **Penderfynwyd cynnal cyfarfod cyhoeddus ar 24.11.2022 yn Neuadd Goffa Chwilog am 7:00 y.h.**

25. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad £	Taliad BACS £
Cyngor Gwynedd (007950B0076648W)	Toiledau Cyhoeddus Llanystumdwy	<u>2000.00</u>		<u>2000.00</u>	<u>2000.00</u>
Mr Rhys Jones	Cae Chwarae Llangybi	<u>650.00</u>		<u>650.00</u>	<u>650.00</u>
Gwasanaethau Coed Pearson & Co. (2065)	Torri coeden dderw Llanystumdwy	<u>300.00</u>	<u>60.00</u>	<u>360.00</u>	<u>360.00</u>
Clifford Hughes (67)	Traeth Afonwen Ynysgain Bach Tŷ Newydd Bontfechan- Ty'n Morfa Maenywern, Llanystumdwy	<u>120.00</u> <u>100.00</u> <u>110.00</u> <u>125.00</u> <u>106.00</u>		<u>561.00</u>	<u>561.00</u>

26. Cyflog mis Hydref 2022 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM. Cytuno.

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS:- £
Cyflog sylfaenol y Clerc, Hydref 2022 35 awr y mis x £11.50 = £402.50 a 12 awr ychwanegol £138.00 am wneud Adroddiad blynyddol (8 awr) a Chynllun Hyfforddiant(4 awr)	402.50 + 138.00 = 541.00 Llai treth £108.20= £432.30	432.300	432.30
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Hydref 2022	541.000 x 20% = £108.20	108.20	108.20
Costau Clerc mis Hydref 2022	£16.00	16.00	16.00

Bydd y cyfarfod nesaf am 7:00 y.h. nos Iau 01.12.2022 yn Neuadd Chwilog a drwy zoom.

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.